Argraffwyd gan Wasg Yr Arad, Pencader.

Camre Cymru.

CERDDI'R RALI
GAN AMRYW FEIRDD

GOLYGWYD GAN
BOBI JONES.

PLAID CYMRU
MEDI 1952

Pris 6d

" ATEB DROS Y GORNEL FACH HON O'R DDAEAR"

Dewch i'r gad ym Mhencadair,
Goror gu, i wirio'r gair
A seiniwyd gan broffwyd bro
A thân ei araith yno.

Gwyrda eon, glewion gwlad,
A ffrewyll y deffroad
Yn eu trem sy'n llywio trin
Arwriaeth mawr y werin.

Doniau Elfed yn eilfyw,
Anadl oes y genedl yw ;
Dyry nerth i'n cadarnhau,
Mae'n gawr mawr ar y muriau.

Di-ofn ei fryd fu Dyfnallt
Drwy ei rawd fel derw yr allt ;
Brenin a llew i brennau llai,
Pab a menter pob mintai.

Gwynfor fonheddig enfyn
Ar ei lef eiriau a lŷn ;
Ei wrid aur yw gwawr y dydd,
Rhin ieuanc Cymru newydd.

Daeth y ' farn dostlem ' arnom,
Rhaid i'r dewr edfryd o'r dom
Emau'r iaith a Chymru wâr
I Dduw, ein rhan o'r ddaear.

S. B. JONES.

"EU NER A FOLANT"

(emyn gwladgarol ar dôn "Hen Wlad fy Nhadau")

Mae hen wlad fy nhadau, hoff famwlad ei phlant,
Yn winllan i'r Crist a'i Efengyl a'i Sant :
Dros byth ymhob Bethel a phob rhyw Lan Fair
  Dyrchafer y Cariad a'r Gair
    —Gwlad, gwlad : nawdd ein Duw i'n gwlad.
    Tra mab a merch, tra serch a sêr,
    O moled y Cymru eu Nêr.

Mae hen wlad fy nhadau'n dreftadaeth ddi-dranc
I riain a maban, hynafgwr a llanc.
A'r werin yn urddol a'r genedl yn rhydd,
  Croesawn y Goleuni a'r Dydd.

Boed hen wlad fy nhadau trwy'r oesoedd yn fyw,
Yn fendith i'r gwledydd, yn gysegr i Dduw :
Ei heniaith yn foliant a'i llafur yn wledd
  O ryddid, brawdgarwch a hedd.

PENNAR DAVIES.

CYMRU

Nid rhaid dinoethi llun dy fronnau brwysg,
  Na thynnu bysedd drwy dy feddal wallt,
Cans gwn dy draserch â'i ofnadwy rwysg
  Pan gronno nwydau yn dy ddeigryn hallt :
Iti, 'run addfwyn, rhof fy ngwaith a'm cân,
  A'm dioddef drosot mewn cadwyni harn ;
Eiddot yw'r goelcerth o anniffodd dân
  A lysg fy sorod ymaith bob yn ddarn :
Cymer fy nghariad a'm gwasanaeth mud,
  A'm plygu parod i'th ogoniant cêl ;
Cadw dy anrhydedd heb salwino'i hud
  Er angerdd gwallgof fy nghusanau mêl.
  Ti, Gymru, yw 'nghariadferch er i wae
  Gorthrymwyr traws dy hela megis prae.

T. E. NICHOLAS.

"CARU CYMRU"

Cashaf di, Gymru, am dy butain wên
I'r treisiwr ar dy ddwyfron ysig di,
Am werthu ohonot erwau'n teulu hen
Yn warthus iddo, a'th frenhinol fri.
Cashaf di am it wadu breiniol iaith
Er sisial yn ei glust daeogaidd rad
Mewn llediaith ; do, a thithau'n gweld y graith
Ar fron dy chwaer, Iwerddon, o'r un brad.
Cashaf di am it feddwi ar eiriau mêl
Ffyliaid fu'n moli eich serch ar uchel ŵyl,
Ac erlid pob rhyw broffwyd gwir pan ddêl
A geiriau sobrwydd iti yn lle hwyl.
Cashaf . . . ond O ! nac edrych arna'i'n awr
Rhag gweld mai fflam fy nghas yw 'nghariad mawr.

CYNAN.

I GYMRU

Ar draws cyfannedd bwriwyd burgyn y Llyw
i'w farw-gnawd fadru a gwenwyno'r byw :
crinodd uchelwriaeth yng ngolosg yr haint,
ond purwyd gwerinos a droes yn saint.

'R oedd y crach-foneddigion ar Gymru yn graith;
crafu'r crach a fu'r dynged faith :
ond yn y festrïau llawenhâi'r saint
gan mai braint oedd cofleidio'r casgliad.

Morgrug-y-jwngl a ysodd gnawd fy rhi,
efô, Dywysog Gwynedd a Chymru, draw yn y De.
Yswyd ei gnawd ym mherfeddion galerïau'r glo
gan wancus lifeiriant y morgrug du.

I'r fyddin ddi-frwydr weledigaethol ddall
bywyd nid oedd ddim ond ymfyddino'n well.
Ysglyfiwyd y burgyn gan filwyr y pwll :
nid erys ond sgerbwd fy Nhywysog coll.

Gorffwys ei benglog ar dipiau glo,
a'r simneiau gwag yw ei asennau o.
Mae'r esgyrn yn sychion ymhen y canrifoedd hir :
Duw, anadled iddynt fywyd ir.

EURYS I. ROWLANDS.

Y BORE Y CYMERWYD DEWI SANT.

Y bore y cymerwyd Dewi Sant
  Gan nawradd nef oddiwrth " y drygau hyn"
Ni hongiai'r eryr aur uwchben y pant,
  Ni thrampiai'r lleng yn waywsyth dros y bryn'
Fe ddarfu am yr heddwch hir Rhufeinig.
  Heb ddim ar ôl o'r gaer a godwyd gynt
  Aeth urddas a syberwyd gyda'r gwynt,
Na neb i'n gwardio rhag yr hil fileinig
Ond o'r anghyfraith a'r anghyflwr mawr
  Tarddodd yng Nghymru dlysion flodau'r Ffydd.
Megis y tyf mewn dinas ddrylliog 'nawr,
  Pan ddelo'r Gwanwyn hyd y fagwyr brudd,
Ryw fyddin fwyn, rhyw dyrfa wen ddi-wall
Yng nghraciau'r concrit a thrwy'r lloriau mall.

ELWYN EVANS.

Y DEWIS

Hogan o Fôn oedd Nain : dywedai'n 'smala,
' Os byth bydd farw'r ïaith
a brintiodd ar fy nghalon ddelw'r Groes
a ffordd yr Iachawdwriaeth rhag pob loes,
i'w hirnos fud hebryngir hi,
a sibrwd am yr olaf gwaith
ein seiniau syw, gan wladwr hen
mewn cilfach werdd ym Môn.'

Druan â nain ! 'Chlywodd hi 'rioed
am gri galarus Branwen, nac am friw
angheuol Arthur ; 'wyddai hi ddim ei bod,
hithau, i deulu dygn iawn yn driw.

Fe wn i'n well na'r hen wraig dlawd.
Pan seinir am yr olaf tro
hyfrytaf fiwsig y Gymraeg,
a chario'i chrythor dan y gro.

Nid ar y ffridd y derfydd draw
yr alaw ar yr awel dyner,
nac yn y gwaith, nac ar y stryd,
ac nid, mae'n siŵr, yn nghwest y crwner,
Ond mewn ystafell ddifrif, ddof,
lle pletia'r 'ffeiriad ei wn du
wrth draethu'n gynnil ac yn goeth
am gystrawennau'r iaith a fu.

BLWCHFARDD.

PLE MAE'R DEWRION ?

Yr oedd Cymru gynt yn deyrnas ;
Bechan oedd, ond mawr ei hurddas ;
Methodd cedyrn wneuthur caethwas
O'r hen Gymro drud.
Tyr y llwfryn gwan ei galon ;
Gnawd i fawddyn wisgo cyffion ;
Rhaid i ddewrion fod yn rhyddion
Neu yn feirw i gyd :
Rhyddion oedd ein tadau,
Arwyr mil o gadau ;
Tros eu gwlad,
Hen Gymru fad,
Collasant waed yn ffrydiau ;
Dewr Rufeiniaid a Normaniaid
Deimlodd eitha'u llid ;
Gelyn ar ôl gelyn,
Wedi brwydro cyndyn,
Orfu ffoi
Yn ddiymdroi
Er mwyn osgoi ein dewrion ;
Ninnau sydd,
Yn dyrfa brudd,
Yn byw dan iau—yn gaethion.
Wyrda Cymru, ple mae'r dewrion ?
Ple mae Corn y Gâd ?

Ond mae henwlad hoff ein tadau
Heddiw'n wael wrth ddwyn hualau.
Onid caethwas mewn gefynnau
Yw pob Cymro'n awr ?
Rhaid in sisial iaith y Saeson,
A dirmygu iaith y Brython,
Rhaid in blygu glin i'r estron—
Bwli Prydain Fawr !
Heddiw'r Saeson torrog
Biau'n gwlad odidog ;
Cawn ni'r gwaith,
A llawer craith,
A chardod yn lle cyflog ;
Duwiau'r Saeson sydd yr awron
Yn ein gwlad i gyd ;
Tollau a'n handwya ;
Trethi'r Sais a'n lletha :
Ac fel ŵyn,
Heb air o gŵyn,
'Rym ninnau'n dwyn y cyfan ;
O pa bryd
Y down ynghyd
I hyrddio'r gelyn allan ?
Wyrda Cymru, ple mae'r dewrion ?
Ple mae Corn y Gâd ?

Cofio Arthur yw'n cywilydd,
Gyr y gwaed yn don i'n deurudd
Tra goddefwn warth yn llonydd
Ac yn llwfr bob dydd.
Myn y gwaed ar gadfaes Camlan ;
Myn y gwaed ar Forfa Rhuddlan ;
Myn y gwaed dros Gymru gyfan
Rhaid cael Cymru'n rhydd !
Cofiwn am Lywelyn,
Cofiwn Owain wedyn,
Yna'n un,
Yn dorf gytùn,
Wynebwn bob rhyw elyn.
Saeson, crynwch ! Gymry, cenwch !
Arthur ddaw yn ôl—
Nid yn filwr drosom,
Ond yn enaid ynom.
Megis gwŷr
A wnaed gan gur
Yn bur fel dur ein bryniau
Trown yn awr,
Yn dyrfa fawr,
I rwygo'n hiau yn ddrylliau
Wyrda Cymru, ple mae'r dewrion ?
Ple mae Corn y Gâd ?

MEURYN.

ANLLADRWYDD

Mae dwylo'r treisiwr
Ar gluniau ein gwlad
A'i glendid yn llid
Yn ei waed byrbwyll o.
Mae had y gorchfygwr tu mewn iddi hi
A phrifiant a phesgi fel cywion y gêg
Nes llenwi'r nyth.

Mae idiom yr estron ar enau'r plant
A'i eiriau anwes
Yn drysu eu synnwyr hwy.

Mae gynnau'r concwerwr ar ffriddoedd yr ŵyn,
A dawnsia'r mamogiaid i'w rhithm,
Ac nid â ond clustiau'r defaid i'r ffair.

Llama'r carneddau a'r teisi mawn,
A lle'r oedd y borfa
Mae briwgig i'r brain.
Rhyd Forlas yw'r mynydd
I ddyn ac i braidd,
Ac mae stympiau o goed
'R un ffunud â choesau hen filwyr
Lle'r ymfrigai'r allt.

Mor weddus yw'r beddau
Ym mynwent Glasnefyn,
Y beddau nas baeddir gan amser :
Yno mae'r angau'n ymswilio,
Yr angau sy'n arswyd i galonnau Cymreig.

GWILYM R. JONES.

DY GAREDIGION.

Pan flino'r treiswyr, Gymru, ar dy gnawd
A werthaist iddynt tra bu gryf dy hoen,
Pan chwydont arnat, wedi'r hwyl, fy nhlawd,
O'th fynd yn ddrewdod mwyach yn eu ffroen ;
Pan gefnant arnat megis cŵn ar ast
A'u llwyr fodlonodd tra bu ynddi fflam,
A'th adael ar dy dom yn sypyn wast
I ddwyn dy warthnod wedi'r trais a'r cam.
Bryd hyn, fy Nghymru, gwybydd dan dy bwn,—
Bydd rhai na'th wrthyd, pan na'th fynno'r fflyd,—
Y rhai ni fynnet, hyd y dwthwn hwn,
Ond poeri arnynt, er eu crefu cyd,
Dy garedigion, pan na chei ond sen,
Ni'th fwriant heibio fyth, O Fagdalen.

MATHONWY HUGHES.

DAIL DODONA

(Ar ôl gweld darlun yn Eglwys Gadeiriol Kemper, Llydaw, sy'n dangos angel yn rhoi ei fys ar wefus dyn : " Le P. Maunoir obtient miraculeusement le don de la langue bretonne.")

Y bys a ddyry fêl i fin
O Angel Nef, na thyn i ffwrdd !
Canhwyllau a lysg a phlyga glin
A rhapsodïau â gwefr eu rhin
A'th fawl am nerth y wyrth. Drwy storm a chur
Ni pheidiodd si'r hen iaith. O cadw'n awr
Galon dy Lydaw'n bur.

Yn sŵn cerddediad estron draed
Datodir clwm caruaidd raff.
Iaith mebyd ydoedd hi, iaith gwaed
A chnawd a'r cloeau cu a gaed
I glymu mam a thad a châr. Nid hon
A weddai i fyddin neu i dorf. O rho
Deyrngarwch eto i'r fron !

Pa saeth a lŷn yn safn y sant
Fel gwayw Mihangel yn y ddraig ?
O Angel Duw, rho gerdd i fant
A chadw'r ddawn ar wefus plant.
Nid tafod tân, ond cusan santaidd yw,
Nid Babel Dŵr, ond dail Dodona. Dwg
Hon o hyd holl lesmair byw.

J. Gwyn Griffiths.

Y CEYRYDD

Y mae tair caer yn cylchu
Tŵr ein diwylliant ni ;
Lleidr yw y llanw ag y mynnwn rhagddo
Eu cynnal hwy gyda chwi ;
Os dwfn yw eu seiliau yn y glynnoedd
Ac ym mêr y mynyddoedd mawr,
Aeth byw yn wyliadwriaeth bob awr
Wrth ddorau ail gantref y lli.

Os â gwyrthiau gwae y myn dyn
Barhau yn ei raib ar ei hynt,
Hyd ddydd medi ei gynhaeaf hyll
Ar aceri'r gwynt ;
Prysurwn ninnau yn ein tir
A dwylo heb staen brad,
I achub tref hendaid a thad,
Y gwyrda gynt.

Caer fewnol fy nheulu,
Lle rhodiaf i'w gwarchae bob dydd
A godais, a osodais ar y sail
Rhag ŕ saethau sydd ;
A thra pery o fewn ei rhagfur
Loywarf yr heniaith yn lân,
Ni ddichon na dŵr na thân
Ysu caer ffiniol fy ffydd.

Fy mro Gymreig sydd hithau
Yn gaer am ei phethau gwiw,
Lle mae'r gymdeithas yn parhau
Yn batrymau triw ;
Eithr nid oes hedd mewn cilfachau heddiw,
Mae brwydr ar bob bryn,
A gwylio drws yn y glyn
Os am yfory i fyw.

Arfogwn yn genedl i gyd,
Ac ymwrolwn ar y mur ;
Mae croes hon ar flaen ein crwsâd
Er yn gaeth gan ei hen gur.
Banerwn bob un erw ohoni,
Ac ar bob trum boed draig ;
Yna, bydd yma gaer o graig
Yn drech na'r un dur.

J. M. Edwards.

I'M CYFAILL, EMRYS

(sydd yn y carchar oherwydd ei fod yn Gymro.)

Mae'r haf yn euog arnom, arnom ni
Sy'n rhydd i'w gasglu ar ein crwyn.
Amheus ei swyn ac amwys. Cans i ti
Mae'r haul yn ddierth a phob awr
Garlamus yma'n ganrif goeg i ti.
Fe'th gofiwn yn y môr ac yn y brwyn,
Cans weli di mo'r haf eleni 'nawr.

Mae serch yn llwyth anesmwyth
Ynom ni sydd wrthi'n anrhydeddu'r coed.
Fe fynnet tithau garu, ond mae mwyth
Yr oed ymhell o'r gell, a dierth Dorothi.
O ! tyred 'nawr o'r twll ; fe gei di ffrwyth
Afallen bêr os gwedi'r wlad a roed
Yn felltith anhrugarog arnat ti.

Truan o'th genedl hon y funud 'ma
Wrth oddef gwarth i'r maban hwn,
Ei pherl. A thithau'n cael dy hela
Sut y gall ei blewyn iaith, fel pluen grin,
A'i holl wareiddiad-gegin fygu pla
Y tanciau trwm a'r awyrennau dwn,
Yn erbyn gwasg y Wasg, a chadw'r ffin ?

A hithau'n ha', rhyw gysur ffug i ni
Y byddwn ninnau 'fory gyda thi.

Gorff. 1952. BOBI JONES.

BYDD ATEB

Hen ŵr Pencader, ple mae'n pryderon ?
Y cri eofn tost, croywaf ein tystion,
Goleui'n ffenestr a gloywi'n ffynnon
A bywhei ein tân yn bentewynion.
Gair hy yn y fangre hon—oedd dy waith :
Fe bery iaith a chartref y Brython.

Taer y du affwys, chwerw y tir diffaith,
Heuwn ein hyd ym mraenar dy araith.
A dygwn aberth yn frwd gan obaith.
Bu cynnau, a diffodd, llawer goddaith.
Pan amod na chwymp ymaith—bydd Cristion
Ei dawn—' y gongl hon'—dan gengl ei heniaith.

Cans bydd cyffroi'r cof, ogof a egyr,
Bydd cynnal nerth a bydd canlyn Arthur.
Bydd hawlio'r tŷ, bydd ail alw'r towyr,
Bydd arddel treftad yr adeiladwyr,
A'n henfoes yn wahanfur—lle bu rhwyll
Bydd cynnull ein pwyll, bydd cynllunio pur.

Gwlad inni 'roed. Bydd gweled anrhydedd,
Bydd ateb dros bob bro, a'n glo gloyw-wedd,
A'n plwm a'n hwraniwm er mwyn rhinwedd
Rhag a wnaeth ryfel yn llawr i'w mawredd :
Lloegr yw hi, ni all greu hedd,—Atebwn
Dros y tir hwn : a than drawstiau'r annedd.

Hen ŵr Pencader, a'th grap yn cydio
Hen a newydd, bydd awen i'n hieuo,
Anadl i ateb yn genedl eto.
Gwelaist er camrwysg las dir y Cymro
I haul Duw yn blodeuo,—Hyn fo'n gwawd
Hyd yn nydd brawd, hyd yn niwedd brudio.

WALDO WILLIAMS.

Y MAEN HWN

Na phlennwch y maen hwn ;
Digon i ni ydyw'r geiriau,
Ac afraid y garreg lefn i gofio'r gŵr.
Ni thâl rhamant yr ornamentau,
A thrimiwyd o'r cwarrau
Ormod o'r cerrig addurn eisoes i'n tŵr.

Yma mae arnom angen i meini miniog
I rythu'n frathog ac yn onglog o gonglau'n gwlad.
Fel yr ysgathro'r rhain groen y gelyn
Pan welont ei benelin
Yn pantu ar Walia ;
Rhoi briw i gynllunwyr y brad.

Na Phlennwch y gofeb.
Ffolineb yw codi ym Mhencader
Y maen trwm hwn
Lle na bydd neb yn gwasgu i'w gysgod ;
Rheitiach ei glymu am wddf y cwislingiaid fyrdd
Sy heddiw yn Sir Gaerfyrddin
A gwendid y genedl yn eu ffyrdd ;
Ei glymu am eu mynyglau
A'u stwffio i fae Llanstyffan
Yn basg i'r pysgod.

EIRIAN DAVIES.